**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi i:
Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

9 Rhagfyr 2015

Annwyl Gyfeillion,

**Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol ar gyfer 2016-17**

Heddiw rwyf yn cyhoeddi manylion y Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2016-17 i Awdurdodau Lleol yng Nghymru trwy Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet. Amgaeaf y datganiad er gwybodaeth ichi.

Yn sgil yr oedi cyn cyhoeddi Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, wynebwyd heriau sylweddol o ran paratoi a chyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a Setliad Llywodraeth Leol 2016-17. Er hynny, rwy'n cyhoeddi'r Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2016-17 ddiwrnod wedi i Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru gael ei chyhoeddi. Dyma'r cyfle cyntaf posib o dan yr amgylchiadau.

O dan y Setliad Dros Dro hwn, mae cyfanswm y cyllid refeniw heb ei neilltuo ar gyfer 2016-17 yn £4.099 biliwn. Mae'r cyllid dros dro a gyhoeddwyd heddiw'n ostyngiad o 1.4% (£57 miliwn) ers 2015-16, o'i addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r Setliad.

Mae £21 miliwn ychwanegol wedi'i gynnwys yn y cyfanswm hwn i gydnabod y rôl hollbwysig mae gwasanaethau cymdeithasol Awdurdodau Lleol yn eu chwarae i wella canlyniadau i'r rhai sydd fwyaf bregus. Gan adeiladu ar ein buddsoddiad yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i flaenoriaethu cyllid ysgolion gyda £35 miliwn ychwanegol yn Setliad y flwyddyn hon.

Mae'r Grant Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2016-17 yn parhau yn £54 miliwn am y bedwaredd flwyddyn yn olynnol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Mae'r *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol* drafft a thablau ychwanegol sy'n cynnwys manylion y Setliad Dros Dro yn ôl Awdurdod Lleol unigol hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r tablau hyn yn cynnwys dyraniadau Awdurdodau Lleol unigol o Gyllid Allanol Cyfun (AEF). Mae'r rhain yn cynnwys y Grant Cynnal Refeniw (RSG) ac Ardrethi Annomestig Cenedlaethol wedi'u Hailddosbarthu (NNDR). Hoffwn dynnu'ch sylw at y canlynol.

a) Mae'r Setliad Dros Dro wedi'i seilio ar ffigur y sylfaen drethu ar gyfer 2016-17. Dyma'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o ffurflenni CT1 yr Awdurdodau ar gyfer 2016-17. Y ffigur yma hefyd fydd yn cael ei ddefnyddio fel ffigur y sylfaen drethu yn y Setliad Terfynol.

b) Rhaniad dros dro yw'r rhaniad rhwng RSG ac NNDR ac mae'n bosib y bydd newidiadau pellach i'r rhaniad hwn. Er hynny, ni fydd hyn yn effeithio ar ddosbarthiad cyffredinol y Setliad.

Rwyf hefyd yn cyhoeddi ar ein gwefan yr wybodaeth sydd ar gael am grantiau refeniw a chyfalaf ar gyfer yr Awdurdodau Lleol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer 2016-17. Rwy'n gobeithio gallu ychwanegu at yr wybodaeth hon adeg y Setliad Terfynol. Mae fy nghyd-Weinidogion a minnau yn ystyried a elllir cynnig hyblygrwydd pellach ynghylch rhai grantiau ar gyfer 2016-17 a thu hwnt. Yn benodol, yr ydym yn ystyried a fydd y Grant Gwella Addysg, neu ran ohono, yn cael ei drosglwyddo i'r Setliad Terfynol ar gyfer 2016-17. Nid oes penderfyniad wedi ei wneud eto, a bydd ymgysylltiad pellach gyda chynrychiolwyr Llywodraeth Leol fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Setliad Dros Dro hwn.

Mae fy nghyhoeddiad heddiw'n lansio cyfnod ymgynghori ffurfiol o 6 wythnos ar y Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro ar gyfer 2016-17. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech sicrhau bod eich ymateb yn dod i law erbyn **dydd Mercher 20 Ionawr 2015** fan bellaf. Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn at:

Simon Edwards
Y Gangen Cyllid a Pherfformiad Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
neu e-bostiwch – LocalGovernmentSettlement@cymru.gsi.gov.uk

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion. Fel rheol, cyhoeddir enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) pob ymatebwr ynghyd â'r ymateb. Os nad ydych am gael eich enwi fel awdur eich ymateb, byddwch cystal â sicrhau'ch bod yn nodi hyn yn glir yn eich ymateb.

Mae'n bosib y caiff copïau o'r ymatebion eu gosod yn llyfrgell Llywodraeth Cymru. Os hoffech i'ch sylwadau aros yn gyfrinachol, byddwch cystal â gwneud hyn yn glir yn eich ateb. Caiff hyn ei ystyried yng ngoleuni ein rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried yr holl ymatebion a ddaw i law erbyn y dyddiad penodedig cyn i benderfyniad gael ei wneud a'i gyhoeddi.

Atgoffir Awdurdodau Lleol am y gofyniad i gydymffurfio â'r ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, a hefyd y dyletswyddau cydraddoldeb penodol lle bo'n gymwys. Dylai effeithiau cyllidebol o safbwynt cydraddoldeb gael eu hasesu a llywio unrhyw benderfyniad terfynol.

Mae'r Setliad Dros Dro hwn yn rhoi ichi'r wybodaeth y mae arnoch ei angen i gynllunio'ch cyllidebau ar gyfer 2016-17. Mae cynnwys y data sylfaen drethu diweddaraf yn helpu i leihau'r newidiadau posibl rhwng y Setliad Dros Dro a'r Setliad Terfynol. Hoffwn eich annog i ystyried sut fydd orau ichi ymgysylltu a'ch cymunedau lleol wrth lunio'ch cynigion a gwneud penderfyniadau am y gyllideb.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services